# Antur. Am y tro cyntaf ac am oes.

## Ein strategaeth 10-mlynedd, wedi'i diweddaru.

Rydym wedi cyrraedd hanner ffordd trwy ein strategaeth 10-mlynedd. Mae wedi ein llywio'n dda yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ac wedi agor drysau ar gyfer rhaglenni effaith mawr a phartneriaethau strategol. Mae ein hymrwymiad i wella mynediad cyn gryfed ag erioed.

Mae llawer wedi newid ers inni ddatblygu'r strategaeth yn 2020. Er mwyn symud yr elusen yn ei blaen, rydym wedi mireinio ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau – gan fanylu ein ffocws ar sut orau i ddefnyddio ein hadnoddau er mwyn cyflawni'r effaith sydd ei hangen ar bobl yn awr ac i'r dyfodol.

## Rydym wedi ymrwymo i'n hamcanion elusennol o hyd

Er mwyn helpu i bawb, yn enwedig pobl ifanc ar incwm isel, ddatblygu gwell wybodaeth, cariad a gofal o gefn gwlad, a gwerthfawrogiad o werthoedd diwylliannol trefi a dinasoedd, yn enwedig trwy ddarparu hosteli ieuenctid neu lety arall ar eu cyfer wrth iddynt deithio ar hyd y lle, gan hyrwyddo eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg.

## Ein damcaniaeth newid newydd

### Gweledigaeth

Mae gan bawb fynediad at fuddion antur, am y tro cyntaf ac am oes.

### Cenhadaeth

Galluogi pawb, yn enwedig pobl ifanc, i gysylltu â phobl, natur a threftadaeth, trwy hosteli mewn mannau anhygoel.

### Effaith

Mynediad gwell i brofiadau mewn natur a threftadaeth yn cyfrannu at lesiant gwell.[1]

### Canlyniadau

- **Hyder** gwell i roi cynnig ar rywbeth newydd
- **Cysylltiadau** gwell gyda phobl, natur a threftadaeth
- Ymdeimlad gwell o **berthyn** yn yr YHA

[1] Sefydliad Iechyd Meddwl 2021, Historic England 2018

# Ein blaenoriaethau strategol

Rydym wedi mireinio 10 egwyddor strategaeth 2020, a luniwyd i greu effaith ac i alluogi, yn bum egwyddor fwy manwl.

- Byddwn yn adeiladu sylfaen gefnogaeth gref i'r YHA a'r achos hosteli trwy ymgysylltu'n ddyfnach â staff, aelodau, rhoddwyr, gwirfoddolwyr, partneriaid ac arianwyr.
- Byddwn yn cynnal rhwydwaith hyfyw o hosteli fforddiadwy a chynaliadwy o ansawdd, wedi'i gefnogi gan swyddfa ganolog effeithiol, sy'n creu gwarged blynyddol.
- Byddwn yn galluogi pawb i gael mynediad i'n lleoliadau ac i ddefnyddio ein rhwydwaith er mwyn cysylltu ein gwesteion â phobl, natur, treftadaeth a gweithgarwch corfforol yn ein hosteli ac yn eu cyffiniau.
- Byddwn yn gwella mynediad i arosiadau dros nos mewn hosteli, gan gefnogi cyfleoedd i unrhyw un a fyddai'n elwa o'r profiad am y tro cyntaf, ac yn ei rymuso i fynd ar anturiaethau hunan-arweiniol.
- Byddwn yn talu cymhorthdal ar gyfer arhosiad cyntaf dros nos y bobl ifanc sy'n lleiaf tebygol o gael profiadau natur a threftadaeth, gan dargedu'r rhai ar fydd yn cael y budd mwyaf o aros dros nos.

# Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

1. Erbyn 2030, byddwn wedi dyblu cyfran y bobl ifanc ddifreintiedig sy'n aros gyda ni — o 10% i 20% o'r gwesteion dan 26 oed.*
2. Erbyn 2030, byddwn wedi cynyddu nifer y bobl sy'n aros o grwpiau addysgol a grwpiau wedi'u hariannu 50% — gan dyfu i draean o'r holl westeion.
3. Erbyn 2030, bydd y rhai sy'n aros gyda ni, y rhai sy'n elwa o'n darpariaeth a'n cymorth, ein cyflogeion a'n gwirfoddolwyr, yn adlewyrchu demograffeg Cymru a Lloegr.

Ac ar draws pawb sy'n aros gyda ni erbyn 2030, bydd hyder, cysylltu ac ymdeimlad o berthyn ein gwesteion wedi tyfu'n gynyddol o flwyddyn i flwyddyn.

4. Erbyn 2030, bydd gennym warged eto, wedi'i gyflawni trwy dwf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl sy'n aros yn ein lleoliadau a chynnydd yn ein hincwm masnachu, a thrwy gyflawni meincnodau effeithlonrwydd gweithredu cenedlaethol ar gyfer elusennau a lletygarwch.
5. Erbyn 2030, byddwn wedi datblygu sylfaen ehangach o gefnogaeth i'r YHA, wedi'i galluogi gan dwf o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd ein cefnogwyr, sgorau hyrwyddwyr net sy'n fwy na chyfartaledd y sector, a sgôr ymgysylltu â chyflogeion dros 75%.

*pobl ifanc sy'n aros o ysgolion/grwpiau â chodau post ym mandiau 1 i 3 y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

Wrth inni gamu at ein canmlwyddiant gyda phwrpas clir, gobeithiwn y byddwch yn parhau i gefnogi cenhadaeth yr YHA i gysylltu pobl â'i gilydd, yr awyr agored, natur a threftadaeth, trwy hosteli mewn lleoedd anhygoel.

---

**Ni yw'r YHA.**
**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**

yha.org.uk